

Tîm Adolygu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus
OFCOM
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain
SE1 9HA

Ail Adolygiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom: Cam 2: paratoi ar gyfer y dyfodol digidol

- 1.1 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad pwysig hwn. Hoffai'r Bwrdd gdnabod yr ystyriaeth amlwg a roddir i'r angen am wasanaeth darlledu cyhoeddus cyfrwng Cymraeg o fewn y ddogfen ymgynghorol hon. Hyderwn y bydd y fath ystyriaeth i'r iaith wrth gynllunio dyfodol darlledu cyhoeddus yn sicrhau y cynhelir ac y datblygir y ddarpariaeth eang o raglenni Cymraeg o safon uchel a ddarperir ar hyn o bryd. Mae rôl allweddol i ddarlledu wrth gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r Gymraeg ac er mwyn cynyddu statws yr iaith.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

- 1.2 Sefydlwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) fel corff statudol trwy Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Y mae'r Ddeddf yn sefydlu'r egwyddor y dylid, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, drin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal. Y mae gan y Bwrdd swyddogaethau a phwerau statudol sydd yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn paratoi Cynlluniau Iaith, i roi manylion sut y byddant yn gweithredu'r egwyddor uchod yn ymarferol. Cytunwyd Cynlluniau Iaith gydag Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU, S4C, OFCOM, y BBC a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r rhain oll yn gyrrff cyhoeddus sy'n ymhél a chynnal a datblygu'r ddarpariaeth darlledu cyhoeddus yng Nghymru.

Y Cyd-destun Polisi

- 1.3 Yn 2003 cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg, *Iaith Pawb*, sy'n anelu at greu Cymru gwir ddwyieithog. Gwelir yn y ddogfen honno rôl ganolog i ddarlledu o fewn cynllunio dyfodol yr iaith Gymraeg. Nodir o fewn rhagymadrodd Prif Weinidog Cymru i'r ddogfen honno bod lansio S4C yn gam allweddol ymlaen yn natblygiad yr iaith Gymraeg, yn ogystal â chyflwyno deddfwriaeth iaith a sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Yn fwy diweddar nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru bod darlledu cyfrwng Cymraeg wedi arwain at ystod o fuddiannau cyhoeddus a'i fod wedi cyfrannu'n sylweddol at greu cymuned ddwyieithog yng Nghymru. Cred y

Bwrdd y gall darlledu cyhoeddus barhau i gynnig cyfraniad allweddol o ran dyfodol yr iaith Gymraeg. Cynigiwn isod sut y dylid cymryd anghenion y Gymraeg i ystyriaeth wrth gynllunio dyfodol darlledu cyhoeddus yng Nghymru.

Cynnal y Ddarpariaeth Gyfredol

1.4 Nodir yn *Iaith Pawb* bod

“...**darlledu** yn chwarae rhan bwysig mewn cadarnhau sawl agwedd o bolisi iaith ehangach y Llywodraeth ac yn tanlinellu statws yr iaith. Mae'r gwasanaeth teledu a ddarperir gan S4C....yn ei gwneud yn bosibl i'r iaith fod yn rhan o fywyd bob dydd. Gall teledu yn enwedig fod yn ffynhonnell gefnogaeth bwysig i'r rhai hynny sy'n dysgu'r iaith¹.”

1.5 Mae cynnig mwy o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith ymhob agwedd ar fywyd yn amcan sy'n greiddiol i bolisi iaith yng Nghymru. Rhwng 2003 a 2007 bu cynnydd o 190 awr yn nifer yr oriau Cymraeg a ddarledwyd yn flynyddol. Mae amrywiaeth y ddarpariaeth yn ffactor bwysig hefyd wrth gwrs. Fel nodir yn y ddogfen ymgynghorol, mae'r amrywiaeth o raglenni Cymraeg wedi ehangu dros y blynyddoedd diwethaf gan gynnwys lansio'r gwasanaeth newydd ac allweddol i blant, Cyw. Mae targedu'r gynulleidfa ifanc hon yn greiddiol o ran dyfodol yr iaith ac yn elfen bwysig iawn yn strategol o fewn cynllunio iaith pwrpasol. Wrth gynllunio dyfodol darlledu cyhoeddus yng Nghymru, hyderwn y rhoddir ystyriaeth briodol i amcanion polisi iaith cyfredol drwy gynyddu'r cyfleoedd i bobl o bob oedran wyllo a gwrandao ar raglenni Cymraeg.

1.6 Heb os, mae darpariaeth darlledwyr fel S4C a'r BBC yn adnodd allweddol i ddysgwyr y Gymraeg. Rhwng 1997 a 2007 gwelwyd cynnydd sylweddol yn y nifer o oedolion sy'n dewis dysgu Cymraeg². Ar yr un pryd, mae'r ddarpariaeth o raglenni ac adnoddau dysgu a gynigir, yn enwedig gan S4C a'r BBC, wedi cynyddu hefyd. Yn unol ag amcanion *Iaith Pawb*, ystyriwn y bydd y gefnogaeth a gynigir i ddysgwyr o fewn darlledu cyhoeddus yng Nghymru'n greiddiol i ffyniant yr iaith yn y dyfodol. Hyderwn felly y bydd y lefel uchel o gefnogaeth sydd ar gael i ddysgwyr Cymraeg o fewn darlledu cyhoeddus yn parhau.

¹ Adran 4.47 – *Iaith Pawb* (2003)

² Tudalen 7 – Bywiogrwydd y Gymraeg : Mantolen Ystadegol (Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2008)

- 1.7 Un agwedd ar statws iaith yw pa mor weladwy ydyw. Mae gweld a chlywed y Gymraeg o fewn darlledu cyhoeddus yn fodd o gynyddu statws y Gymraeg ymysg siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg. Wrth gynllunio dyfodol darlledu cyhoeddus, dylid sicrhau bod unrhyw newidiadau'n anelu at gynyddu statws y Gymraeg fel iaith fodern, uchel ei pharch sy'n hygyrch i bawb. Fel nodir yn y ddogfen ymgynghorol, mae datblygu'r ddarpariaeth o raglenni Cymraeg sydd ar gael wedi creu diwydiant cynhyrchu lewyrchus yng Nghymru ac mae hyn hefyd yn elfen bwysig o ran dyfodol yr iaith, sef sicrhau diwydiant uchel ei barch lle defnyddir y Gymraeg yn broffesiynol ar lefel dyddiol.

Datblygu'r Ddarpariaeth

- 1.8 Cynigir o fewn y ddogfen ymgynghorol 3 model posib ar gyfer dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Gwelir bod manteision ac anfanteision i'r modelau a gynigir a bo'r rhain yn amrywio o un cenedl ddatganoledig yn y DU i'r llall. Mae'r Bwrdd felly'n cytuno a'r hyn a awgrymir yn rhan 5.94 y ddogfen sef y dylid datblygu'r ddarpariaeth ymhob cenedl ddatganoledig yn seiliedig ar sefyllfa unigryw pob cenedl unigol, gan gynnwys sefyllfa ieithyddol y genedl honno. Wrth gynllunio i ddatblygu'r ddarpariaeth yng Nghymru, argymhella'r Bwrdd y dylid ystyried yn briodol y ffactorau canlynol:
- Fel nodir uchod yn y papur hwn, ystyrir bod y ddarpariaeth gyfredol o ddarlledu cyhoeddus cyfrwng Cymraeg yn llwyddo o safbwynt ieithyddol, hynny yw mae'n cyfrannu'n sylweddol at ffyniant yr iaith Gymraeg. Wrth i ddefnydd o'r iaith Gymraeg dyfu, dylid sicrhau bod y ddarpariaeth o ddarlledu cyhoeddus cyfrwng Cymraeg hefyd yn cryfhau ac yn ehangu.
 - Pa bynnag fodel(au) o ddarlledu cyhoeddus a fabwysiedir yn y DU, mae angen clustnodi adnoddau digonol er mwyn sicrhau llwyddiant. O fewn diwydiant cynyddol gystadleuol, bydd sicrhau adnoddau digonol er mwyn cynhyrchu safon uchel o ddarpariaeth Gymraeg yn hanfodol er mwyn denu gwylwyr.
 - Cyfeirir yn y ddogfen ymgynghorol at ddefnydd technoleg newydd wrth ddarparu gwasanaeth darlledu cyhoeddus. Mae tirwedd Cymru'n amrywio'n fawr o un ardal ddaearyddol i'r llall ac felly hefyd argaeledd technoleg newydd, er enghraifft technoleg band eang. Nodir yn y ddogfen ymgynghorol y bydd 'darlledu mewn ieithoedd cynhenid yn elw o'r trosiant at dgididol'. Yn achos y Gymraeg, bydd hynny'n wir os yw'r dechnoleg ar gael i ddarlledu'n effeithiol i bob rhan o Gymru.

Casgliad

1.9 Gwerthfawrogn yr ystyriaeth amlwg a roddir i'r iaith Gymraeg o fewn y ddogfen ymgynghorol hon. Nodir ynddi fod angen 'sichrau lefel briodol o allbwn mewn ieithoedd cynhenid', gan gynnwys y Gymraeg. Mae'r Bwrdd yn gwbl gytûn a hynny. Hyderwn y bydd y sylwadau a gynigir uchod yn gymorth wrth geisio penderfynu ar lefel 'briodol' o ddarlledu Cymraeg, ac wrth gynllunio sut i'w ddarparu.

Yn gywir



MEIRION PRYS JONES
Prif Weithredwr

Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5/7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT
post@bwrdd-yr-iaith.org.uk
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Welsh Language Board
Market Chambers
5/7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT
post@welsh-language-board.org.uk
www.welsh-language-board.org.uk

T +44 (0)29 2087 8000
Ff +44 (0)29 2087 8001
Cadeirydd_Chair Meri Huws
Prif Weithredwr_Chief Executive
Meirion Prys Jones
Swyddfeydd eraill_Other offices
Caernarfon, Caerfyrddin_Carmarthen